# Cofnodion

## Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Llun, 18 Tachwedd 2019 |
| Amser: | 4.00 pm |
| Bresennol: | Cynghorwyr C Evans (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, J Clarke, J Richards and D Williams<br><br>Gareth Price (Head of Law & Regulation), Paul Jones (Head of City Services) and Meryl Lawrence (Cynghorydd Craffu) |
| Yn bresennol: | Councillor R Truman and Councillor R Jeavons |
| Ymddiheuriadau: | Cynghorwyr G Berry, K Critchley, D Fouweather and I Hayat |

1 **Datgan diddordeb**

Dim.

2 **Cynlluniau Gwasanaeth - Adolygiad Canol Blwyddyn 2019-20**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y 4 mis diwethaf wedi bod yn brysur i'r adran. Roedd y Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol yn treulio mwy o oriau golau dydd yng nghanol y ddinas a'r wardiau, gan fod eu horiau gwaith wedi newid 3 mis yn ôl i weithio 1pm – 10pm, a oedd yn rhoi mwy o amser i dreulio yn yr ardal. O 7$^{fed}$ Hydref i 6$^{ed}$ Tachwedd 2019, cafodd 77 hysbysiad cosb benodedig eu cyflwyno ar gyfer baw cŵn, taflu sbwriel, cŵn nad oedd ar dennyn a chardota wrth beiriannau arian parod.

Roedd Safonau Masnach wedi bod yn llwyddiannus mewn erlyniadau a chau siopau am werthu tybaco anghyfreithlon yn ogystal â nwyddau ffug a pheryglus a werthwyd ar-lein. Roedd hyn wedi'i gyflawni er y lleihad adnoddau a llai o staff. Roedd y Gwasanaeth Cŵn Crwydr wedi derbyn dau wobr Aur Genedlaethol yr RSPCA. Roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg gan staff a gwirfoddolwyr ac yn cael arian oddi wrth bartneriaid. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai Casnewydd oedd yr unig awdurdod yng Nghymru a dderbyniodd wobrau aur, ac fe'i priodolwyd i'r staff yn y tîm.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Holodd Aelod am Gam Gweithredu 3.3 ar dudalen 21: "Gwasanaeth Cofrestru – Adolygu Ffioedd Dewisol a Thaliadau ar gyfer y Gwasanaeth Cofrestru", lle'r oedd y statws Coch/Ambr/Gwyrdd yn wyrdd tra oedd ond 10% wedi'i gwblhau, ond wedi bod yn rhedeg o 1af Ebrill 2018 a byddai'n terfynu ar 31$^{ain}$ Mawrth 2019. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth y Pwyllgor fod hwn yn gambrint, y dylai ddarllen 100%, ond ychwanegodd fod nifer o amcanion nad oedd yn addas ar gyfer adroddiadau canrannol.

- Holodd Aelod am Gam Gweithredu 4 ar dudalen 26: "*Gwneud y defnydd gorau o ffurflenni gwe IDOX – yr Amgylchedd a'r Gymuned"*, ac roedd y statws Coch/Ambr/Gwyrdd yn goch ac roedd y sylwebaeth yn nodi bod y cam wedi'i ohirio oherwydd bod nifer o swyddi'n wag yn Nhîm Tai Iechyd yr Amgylchedd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod swyddi gwag sylweddol yn gyffredinol, ond nid oedd y cam hwn wedi'i ddewis ar gyfer y cynllun busnes lefel uchel ac nid oedd yn effeithio ar swydd unrhyw un o bob dydd. Nid oedd digon o staff mewn Safonau Masnach ac nid oedd y camau gweithredu wedi bod yn flaenoriaeth. Ychwanegodd mai dyma oedd y broblem o ran trosiant staff, yn enwedig mewn timau llai. Roedd y gwasanaeth yn cynnal lefel dda o berfformiad gydag adnoddau'n prinhau a phan fydd staff yn gadael, byddai'n adlewyrchu ar berfformiad. Eglurodd nad oedd gan y gwasanaeth broblem recriwtio, roedd yn fater o gadw staff.

- Holodd Aelod ynghylch y cynnydd o ran cyflwyno taliadau cerdyn i gwsmeriaid. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud.

- Cyfeiriodd Aelod at Amcan 1, Cam Gweithredu 2.2 lle'r oedd y sylwebaeth arno o dudalennau 18 i 20 wedi ei osod yn ddryslyd ac yn cynnwys talfyriadau anesboniadwy a oedd yn ei gwneud yn anodd eu darllen. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn derbyn bod gormod o naratif wedi'i ddarparu ac y byddai'n mynd i'r afael â'r mater o ddefnyddio byrfoddau ac ymddiheurodd am unrhyw ddryswch.

- Holodd Aelod ynghylch y Mesur Perfformiad: *"Canran yr erlyniadau cyfreithiol a gyhoeddwyd o fewn 20 diwrnod gwaith*" ar dudalen 36, lle'r oedd y Statws Perfformiad yn Goch ar ei gyfer. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y bu nifer o absenoldebau salwch hirdymor mewn timau bach yn hwyr y llynedd, ond roedd swyddi gwag wedi'u staffio. Ar hyn o bryd roedd y perfformiad yn 100%, ond oherwydd natur gronnus ni fyddai'r Mesur yn Wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, pan ddechreuodd y flwyddyn ariannol newydd, byddent yn ôl ar y trywydd iawn.

- Cyfeiriodd Aelod at y gorwariant o £20 mil ar y gyllideb ar ddiwedd chwarter 2 y cyfeirir ato yn y crynodeb gweithredol ar dudalen 13 a gofynnodd a fyddai hyn yn ôl ar y trywydd iawn erbyn diwedd y flwyddyn. Cynghorodd y Pennaeth Gwasanaeth fod gan y gwasanaeth danwariant o £70 mil o ddarpariaeth swyddi gwag ers hynny, ond nad oedd hyn yn gynaliadwy gan y byddai'r swyddi'n cael eu llenwi, fodd bynnag, roedd y gwasanaeth yn dal yn hyderus y byddai'n dod o dan y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd nifer o bwysau ar y gyllideb yn cael eu rheoli yn y gwasanaeth e.e. teledu cylch cyfyng a gorwario ar staff cofrestru oherwydd galw uchel.

- Cyfeiriodd Aelod at Amcan 4, Cam Gweithredu 5: *"Achrediad Baner Borffor Diogel"* ar dudalen 29, lle'r oedd y statws Coc/Ambr/Gwyrdd yn ambr, a gofynnwyd a fyddai hyn yn cael ei gwblhau o fewn yr amserlen. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'r cais yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2020. Fel menter Partneriaeth bu mwy o ymgynghori a bu'n bwysig bod gorfodaeth parcio sifil yn mynd rhagddo i ddadansoddi symudiadau traffig cyn cyflwyno'r cais. Dylid rhoi gwybod am ganlyniad y cais yng Ngwanwyn 2020.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu.

**<u>Gwasanaethau'r Ddinas</u>**

Yn bresennol:
- Cynghorydd Roger Jeavons (Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Ddinas)
- Paul Jones (Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas)

Cynigiwyd ymddiheuriadau i'r Pwyllgor ar ran y Cyfarwyddwr Strategol – Lle.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet drosolwg byr i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Roedd y gwasanaeth £200 mil dros y gyllideb ar y pwynt canol blwyddyn ac eglurodd fod y gwasanaeth yn cwmpasu nifer o bortffolios Aelodau'r Cabinet a bod rhai materion yn codi ynghylch ffioedd mynwent. Roedd £1 miliwn y flwyddyn yn cael ei wario ar y rhwydwaith priffyrdd. O ran Gorfodaeth Parcio Sifil, roedd 10,500 o docynnau wedi'u cyhoeddi yng Nghasnewydd a chrëwyd cronfa ddata o fannau poeth, gyda wardeiniaid yn patrolio ar draws y ddinas. Dywedwyd wrth yr Aelodau yn dilyn cymeradwyo'r Cofnodion Craffu ar y Strategaeth Wastraff Ddrafft, caiff penderfyniad gan yr Aelod Cabinet ar y Strategaeth Wastraff ei wneud.

Roedd cysylltiadau trafnidiaeth wedi gwella ac roeddent yn ymddangos fel rhai ambr. Mae'r Aelod Cabinet yn eistedd ar Fwrdd Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd gwaith ar ddadansoddi risg wedi nodi Casnewydd fel yn ffafriol, fodd bynnag gan mai dull rhanbarthol yw hwn, nid oedd Casnewydd yn rheoli'r holl newidynnau. Nododd hefyd, ar dudalen 54, dylai'r Mesur Perfformiad ar gyfer: *"% y Gwastraff Trefol sy'n cael ei ailgylchu yn y CAGC"* ddarllen 69.4%.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod nifer o brojectau mawr ar y gweill yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Roedd y rhain yn cynnwys: cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil; y symudiad llwyddiannus i finiau sbwriel llai, ac roedd 11,000 o fylbiau wedi'u newid mewn goleuadau stryd yn y rhaglen dan LED a oedd wedi lleihau'r effaith carbon ac wedi creu arbediad o ran y gyllideb.

Roedd gan y gwasanaeth nifer o swyddi gwag oherwydd trosiant gweithredol yr oedd wedi cael anhawster i'w llenwi, oherwydd natur dechnegol arbenigol y swyddi. Dywedodd nad oedd y Mesur Perfformiad: *"Amser aros cyfartalog y ganolfan cyswllt cwsmeriaid – y Dreth Gyngor"* lle roedd y statws Perfformiad yn Goch yn rhan o'r portffolio Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau'r Ddinas ac roedd oherwydd yr adnoddau cyfyngedig i ymateb i lefel y galw.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Cyfeiriodd Aelod at y Mesur Perfformiad: ffigur Canol Blwyddyn y % o Wastraff Dinesig a ailgylchwyd yn y CAGC o 69.4% a gofynnodd am eglurhad ai Casnewydd oedd y ddinas a berfformiodd orau yn y DU ar gyfer ailgylchu. Pe bai'r gyfradd hon yn cael ei chynnal am weddill y flwyddyn, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y gallai Casnewydd fod y ddinas sy'n perfformio orau yn y DU o ran ailgylchu.

- Cyfeiriodd un o'r Aelodau at y penderfyniad ar Ffordd Liniaru'r M4 a gofynnodd beth a wnaed ynghylch Amcan 4, Cam Gweithredu 3: "Bwrw ymlaen â thrafnidiaeth Bargen Dinas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd" ar dudalen 48. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hwn yn amcan corfforaethol, a bod Casnewydd ynghyd â 10 awdurdod wedi tynnu arian i lawr, a fyddai'n cael ei weld ar draws y rhanbarth gyda gwelliannau i'r trac a gorsaf reilffordd newydd Llanwern yng Nghasnewydd, drwy gynllun Metro De Cymru. Mae gwybodaeth am y cynllun ar gael drwy wefan a byddai y Pennaeth Gwasanaeth yn darparu dolen i'w chylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor. Cyfeiriodd hefyd at gyfnod ar wahân yn y cynllun yn y dyfodol, a oedd yn cynnwys y cyswllt â Glyn Ebwy.

- Cyfeiriodd Aelod at y defnydd o fyrfoddau yn yr adroddiad a gofynnodd am i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys geiriad llawn o leiaf unwaith, ac yna'r byrfoddau.

- Holodd Aelod ynghylch yr amserlen ar gyfer y cysylltiad rheilffordd â Glyn Ebwy. Cynghorwyd ei fod ar hyn o bryd yng Ngham 2 yn y project metro, ei ddyddiad gwreiddiol oedd 2021. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r cyswllt hwn yn dda i ddarpar staff deithio i Gasnewydd.

- Holodd Aelod ynghylch talu dirwyon parcio Gorfodi Sifil a nifer yr heriau a gafwyd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth nad oedd unrhyw daliadau wedi'u talu yn y mis

cyntaf, ac yna taliadau’n dod mewn yn fuan wedi hynny. Cafwyd 74 o heriau ond nid oedd unrhyw batrwm yn dod i'r amlwg i'r heriau a dderbyniwyd ac roedd model y gyllideb wedi rhagweld 10% disgwyliedig, ac roedd hyn o fewn hynny, a byddai'n gwella dros amser.

- Holodd Aelod ynghylch nifer y galwyr i'r ganolfan gyswllt sy'n hongian i fyny. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod ffigurau'n cael eu cyhoeddi ar-lein bob 3 mis, ond y broblem o ran defnyddio hyn fel dangosydd perfformiad oedd gwahaniaethu pam fod galwad wedi dod i ben, er enghraifft mae negeseuon awtomatig yn cynnwys gwybodaeth i ailgyfeirio galwyr ar-lein neu i opsiynau eraill, felly gellid bod wedi datrys eu rheswm dros ffonio.

- Canmolodd Aelod y gwasanaeth am ei waith a gofynnodd a fyddai adolygiad o'r gwaith Gorfodi Parcio Sifil. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod rhai materion i'w datrys cyn adolygu, ond bod angen i'r Cyngor gynnal adolygiad blynyddol. Gofynnodd Aelod a fyddai angen mwy o reoli traffig. Atebodd y Pennaeth Gwasanaeth y gallai fod angen rhai, ond roedd pobl wedi newid eu harferion parcio oherwydd yr heriau a wnaed, ac roedd llefydd parcio amser-cyfyngedig hefyd yn y ddinas.

- Holodd Aelod am Amcan 2, Cam Gweithredu 3: "*Gwella gwasanaethau gwastraff masnach*", ar dudalen 45, roedd y sylwebaeth ar ei chyfer yn nodi" camau yn cychwyn yn chwarter 4, 2019/20". Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y cynlluniau hyn wedi'u hysgrifennu dros nifer o flynyddoedd ac yn disgwyl ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar newidiadau mewn rheoleiddio. Disgwylir i'r newidiadau fod yn hysbys ar 13eg Rhagfyr 2019, ac yn dilyn hyn gallai'r camau hyn symud yn eu blaen.

- Holodd Aelod am y 58% cynnydd a wnaed o ran yr ymyriadau y bydd Casnewydd yn ceisio dylanwadu arnynt yn Amcan 4, Cam Gweithredu 3 *"Bwrw ymlaen â Thrafnidiaeth Bargen Dinas Ranbarthol Caerdydd"* ar dudalen 48. Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaeth am gamau 1 a 2 o’r projectau Metro lle’r oedd Llanwern yn orsaf ychwanegol â blaenoriaeth ynddynt. Sgoriodd gorsafoedd eraill fel Caerllion a Celtic Springs yn is ar asesiad Llywodraeth Cymru. Gellir darparu'r wybodaeth i'r Aelodau fel y nodwyd uchod.

- Gofynnodd Aelod a oedd y gwaith rhanbarthol yn creu tagfa ar gyfer y projectau. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth, nad oedd yn credu, ac er bod y Bwrdd Rhanbarthol yn penderfynu ar y projectau yn gyffredinol, bod gan bob un o'r deg Awdurdod Lleol gynrychiolydd ar y Bwrdd Rhanbarthol i gyfleu eu barn ar y materion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu.

**Casgliadau – Sylwadau i’r Cabinet**
Nododd y Pwyllgor y perfformiad yn yr adolygiadau canol blwyddyn o'r Gyfraith a Rheoleiddio a Gwasanaethau’r Ddinas a gwnaeth y sylwadau canlynol i'r Cabinet:

<u>Cyffredinol:</u>
- Croesawodd y Pwyllgor y gwelliant a wnaed i'r cyflwyniad ac i gynllun yr adroddiad mewn ymateb i sylwadau blaenorol.

- Gofynnodd y Pwyllgor i adroddiadau yn y dyfodol symleiddio unrhyw naratif gormodol yn y blychau sylwebu er mwyn osgoi dryswch a defnyddio geiriad llawn ar ôl ei ddilyn gan dalfyriad cysylltiedig, yn yr un modd â'r arfer.

- Gofynnodd y Pwyllgor i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys sylw ar sefyllfa Cyllideb Gwasanaethau gan gynnwys unrhyw risgiau cyllidebol, yn y Crynodeb Pennaeth Gwasanaeth.

- Gofynnodd y Pwyllgor a ellid lleihau'r amser rhwng diwedd y cyfnod adrodd a chraffu ar y wybodaeth e.e. archwiliwyd data Chwarter 2 hyd at ddiwedd mis Medi ar 18fed Tachwedd.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.10 pm